Rhifyn 27 Mai 2010

# Bwletin Llên Natur

*Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas*







<<llyffant
<<broga>>
llyffant dafadennog>>
<<llyffant melyn
llyffant du>>

Pa un ydi p'un?
**A be ydy'ch enw chi arnynt?**




Yng nghyfrol gyntaf Cyfres Enwau Creaduriaid a Phlanhigion (Creaduriaid Asgwrn-cefn) cawsom cryn drafferth dod i ben â bedyddio'r llyffantod unwaith ac am byth oherwydd yr anghytuno bu erioed rhwng de a gogledd - rhwng broga a llyffant. Fel hyn y'i datryswyd: *Rana temporaria* (*common frog*) broga neu lyffant melyn; *Bufo bufo* (*common toad*), llyffant dafadennog [mwy tudalen 2]

## Ystyriwch y Lili

Ymhen Llyn y Gadair, nid nepell o'r sarn, mae yna lili yn y merddwr (tua SH567522 yn ôl y map OS) wrth droed Y Garn. Lili'r dŵr oedd hon, nid lili'r maes, a phan dderbyniodd TH Parry-Williams wahoddiad yr apostol Mathew i "ystyried y lili", honno, yn y Rhyd Ddu aeth a'i fryd. Gallwn faddau iddo am ddewis y lili anghywir - doedd Matthew, neu'r sawl a'i cyfieithodd, ddim yn siŵr iawn o'i bethau chwaith fel y gwelwch yn y man. "Alaw" oedd enw gwreiddiol y lili ddŵr wen, a dyna welodd Parry-Williams "yn ddiog ddiysbryd yng nghwr y llyn - a'r petalau er hynny yn syndod o wyn". Roedd yr alaw yn fodel o wynder yn Llyfr Gwyn y 13eg ganrif hefyd - "Gwynnach oedd na'r alaw". Wn i ddim beth wnaeth y lili i haeddu'r fath ensyniadau difrïol gan y Bardd o Ryd Ddu: "coesau yn sownd mewn llysnafedd llaes"...a blodau "lleicion, gludiog, di-sawr yn pendympian ar wyneb y dyfnjiwn mawr..." Onid alarch y blodau yw hi i bawb arall? O leiaf gall neb ei gyhuddo o fod yn sentimental nac yn ystrydebol. Ydy'r planhigyn yn tyfu o hyd ar yr afon Alaw ym Môn tybed? Ond wedi dweud hyn oll, nid lili go iawn oedd lili'r maes yn yr Efengyl - y lili nad yw'n "llafurio nac yn nyddu". Math o flodyn gwynt, *Anemone coronaria*, oedd y lili y soniodd Matthew amdani, blodyn a flodeuai yn fyrdd ar ôl glaw cynnar ger Gennesaret, yr ardal lle y bu i Grist gyflwyno ei Bregeth ar y Mynydd. Hwn oedd y planhigyn a dyfodd ar olion gwaed Adonis ar ôl iddo gael ei gornio gan dwrch a marw ym mreichiau ei gariad Aphrodite. Taenodd hon neithdar ar olion y gwaed, a dywedir i'r blodyn gwynt petalau cochion hwn dyfu yn y fan a'r lle. Oherwydd y cysylltiad â gwaed Adonis, pabi coch oedd ystyr *anemone* yn y Lloegr canoloesol, a "*poppy anemone*" yw un enw Saesneg ar y blodyn y mae Matthew yn ei alw yn lili'r maes.

Mae ein blodyn gwynt ninnau, Anemone nemorosa, yn ei ogoniant yn y tymor hwn yn ein coedwigoedd collddail. Ond pa fath o lili sydd yn Ecclesiasticus "fel rhosyn yn blodeuo yn y gwanwyn, fel lili ger ffynnon o ddŵr". Nid lili go iawn mo honno chwaith, ond planhigyn agosach iddi mae'n rhaid cyfaddef na'r blodyn gwynt, sef math o ellesgen, *Iris palaestina*. Mae gellesgen Palesteina yn gymysgiad annirnad o liw lemwn a glas golau – pa ryfedd mai o'r gair Groeg am enfys y daw "iris"? Mae Thomas Hardy yn cyfeirio yn un o'i gerddi at gred pobl ei gyfnod yn swydd Dorset bod y gwartheg yn penlinio yn y beudy am hanner nos Noswyl y Nadolig. Dywedodd iddo fynd i'r beudai unwaith gan obeithio mai felly y byddai. Mi fydd yn rhaid i minnau hefyd fynd i bendraw Llyn y Gadair yn yr haf i droedio hen gynefin TH Parry-Williams a gweld - na, gobeithio - bod ei lilis yno o hyd.



Addasiad o erthygl a ymddangosodd gyntaf yn Y Cymro


Cymdeithas Edward Llwyd: Rhif Elusen Gofrestredig : 1126027 **Ychwanegwch ddeunydd i llennatur@yahoo.co.uk** Golygydd: Duncan Brown, Cysodi: Ifor Williams.

## Pryfed Sant Marc

*About the St. Mark's fly - it is important to bear in mind the reform of the calendar in 1752 when, to make the calendar date agree with the astronomical date, 11 days were taken out of the calendar, so that 1752 was calendar wise only 354 days long ("Give us back our 11 days" cried the uninformed who really believed their lives were being shortened by 11 days.) The result of the change was that what had been St. Mark's Day, 25 April, became 6 May and likewise the new St. Mark's Day was what had been 14 April. The present 6 May agrees much better with [your appearance dates of Bibio marci in Bwletin 15]* llythyr gan Peter Benoit dyddiedig "*St. Mark's Day (Old Style) 2009*"

Mwy am y newid yn y calendar yn Bwletin Llên Natur Rhif 2

## Broga ynteu llyffant? (mater arall yw "toad")




## Ystyriwch y brain.....




Meddai Keith am ei lun: "wedi meddwl cael llunia' o 'adar haearn' ddoe, ond doedd yr RAF ddim am ddod allan i chwarae! Beth bynnag, bu i Awyrlu Brain Cymru fy niddanu yn ei lle".........Ac meddai Luc: "nid ydynt yn hau nac yn medi, nid oes ganddynt ystordy nac ysgubor..."" (Luc 12.22–26).

Ac a son am lilis (tudalen 1), yn yr un gerdd mae'r bardd o Ryd Ddu yn ystyried y brain hefyd:

Hen adar castiog, cableddus, croch,
Wedi hel ar nos Sul at y chwarel Goch;
Gan regi a rhwygo ym mrigau'r coed,
A thyngu mewn iaith na ddeallwyd erioed....
....Y mae adnod yn honni bod Crist wedi dweud,
"Ystyriwch y brain" - a dyma fi'n gwneud.

TH Parry-Williams

## *Palmkatzerl*



Pan oeddwn yn hogyn yn byw efo fy mam, yr oedd ganddi arfer o hel priciau helyg â'u cywion gwyddau bach arnynt. Yr oedd hi'n galw rhain yn *Palmkatzerl*, hynny yw cywion bach y palmwydd. Yn ol hi, dyma oedd yr arfer yn ardal ei chatref yn nwyrain Awstria ar Sul y Blodau, gan nad oedd gwir ddail palmwydd ar gael

Lari Parc




Meddai CADW ar yr hysbysfwrdd: "Yn ystod gwaith cloddio'r adeilad petrual pellaf, canfuwyd llawer o slag haearn, a oedd yn sylfaen lle tan y tu fewn iddo, gan awgrymu bod yr adeilad wedi cael ei ddefnyddio fel gweithdy. Yn ogystal canfuwyd crochenwaith Brythonig-Rufeinig, pysgod cregyn, offeryn wedi ei wneud o asgwrn â rhiciau, ynghyd ag offer pigfain o esgyrn a dau ddarn o arian o'r 4ydd. ganrif".

Llun: Mawrth 2010. sh 494862; DB.

***Gŵyl y Grog 3 Mai***

**Cynhaliodd wardeniaid y Cyngor Cefn Gwlad (a rhai'r Cyngor Gwarchod Natur a'i rhagflaenodd) arolwg o'r "ymryson" rhwng y traeth a'r twyni dros gyfnod o 30 mlynedd.**





Deunaw mis wedyn yr oedd stormydd y gaeaf wedi claddu'r ffens hyd at frig y polion.





Erbyn 1982 yr oedd twynen newydd wedi dechrau ffurfio o flaen y ffens ac roedd moresg wedi dechrau symud i ffewn illain.



Yn 1991 roedd twf y dwynen ar ei anterth a'r ffens wedi ei chladdu i raddau helaeth. Dechreuodd y dwynen edwino o hynny ymlaen tan y presennol..

Tynnais y llun uchaf o Glwb Adar Talsarnau yn 1978 o flaen ffens a osodwyd ar draeth Harlech fel rhan o arbrawf. Fel y gwelwch, methodd yr arbrawf a defnyddiwyd y ffens i fesur llanw a thrai'r tywod a'r llystyfiant dros y 30 mlynedd nesaf. Mae'r saeth felen ymhob llun yn dangos pen yr un polyn




(neu bolyn arall wedi ei osod uwch ei ben wrth i'r un blaenorol gael ei gladdu.

Cynhaliwyd arolygon o'r llystyfiant yn y llain a dyma rai o'r canlyniadau. Mae'r graffiau yn dangos hynt planhigion arbennig yn y llain hon o 1978 a 2008. Yr hegydd arfor a'r helys ysbigog yw'r ddau yn y graff uchod. Roedd tyfiant y rhain yn eu hanterth yn y bedwaredd flwyddyn cyn edwino i ddim wedi hynny. Ail ymddangosodd tua 2006 pan ail dadsefydlwyd y twyni.

Yn 1988 ymddangosodd llaethlys y môr am y tro cyntaf







mewn congl o'r llain ac fe ymledodd drosti yn ddi-ball yn ystod yr ugain mlynedd nesaf.

Cyrhaeddodd yr helyglys hardd eu hanterth gyda throad y ganrif ond edwinodd o 2003 ymlaen fel yr oedd y dwynen






yn raddol datgymalu a thywod yn cael ei ryddhau o'r newydd.

Cafodd y warden (DB) gynhorthwy nifer o wirfoddolwyr dros gyfnod y gwaith hwn, yn bennaf y diweddar Wil Jones, Graham William, Gareth Howells a David Hewitt.

*Gwyl Ieuan porth Lladin 6 Mai*

## Y Gwyfyn Brith



Mae patrwm y gwyfyn brith yn ymdebygu i gen coed. Hwn ydi’r gwyfyn a gafodd enwogrwydd gan Kettlewell ddechrau’r ganrif ddiwethaf pan gwnaeth ei arbrofion clasurol a ddangosodd Ddetholiad Naturiol ar waith. Gwnaeth hyn trwy gyfri faint o’r ffurf frith (uchod) a faint o’r ffurf dywyll a ddeuai i’w drap rhwng Manceinion fudr a Chymru lân. Cafodd bod cuddliw'r ffurf olau yn aneffeithiol rhag ysbeilio adar ar goed di-gen y dref lygredig a’r ffurf dywyll yn ffynnu yno yn ei le. Parhaodd y gwrthwyneb yng Nghymru fel erioed.

A dyma lindysyn y gwyfyn brith - cuddliw o fath gwahanol iawn. Gwraig o Benygroes gyfrannodd y lindysyn.



## Sychder Gwanwyn 1938

O ddyddiadur Owen T. Griffiths (bachgen yn ei arddegau ar y pryd), Rhos y Ffordd, Llangristiolus, Môn

2 Mai: Wel diwrnod oer iawn yw hi heddiw wedi newid yn arw ond dim glaw. Mae gwynt y dwyrain yn ddrycinog iawn

3 Mai:Gwynt y dwyrain yn fy erbyn a minnau'n hwyr

4 Mai: Braf iawn heddiw

5 Mai: Braf bob dydd rŵan ac y mae y ddaear yn sech a chaled ac yn cracio i gyd

Ac nid yng ngogledd Cymru yn unig y teimlwyd y sychder. Dyma gofnod o ddyddiadur Virginia Woolf o Sussex:

5 May 1938: pouring now; the drought broken; the worst spring on record.

Ni thorrodd y sychder ym Môn tan y 12fed yn ôl OT Griffiths

12 Mai: GLAW Yr oedd gwynt neithiwr ac erbyn y bore yma yr oedd y glaw nefolaidd wedi rhoi bywyd newydd i bopeth! Glaw neis hefyd. Trwyddo i'r ysgol...

## Atal y wasg...

Ebrill 16, 2010 : Oherwydd yr ofn i lwch, o’r llosgfynydd sy’ wedi bod yn ffrwydro yng Ngwlad yr Ia ers rhai dyddiau bellach, amharu ar beiriannau jet awyrennau, mae pob maes awyr drwy wledydd Prydain ar gau. Dyma sydd i gyfrif am heddwch perffaith yr awyr heddiw – dim golwg o unrhyw linellau gwynion (con-trails) yn yr entrychion a dim son drwy’r dydd am y jets bach plagus ’na o’r Fali sy’n chwyrlio i fyny Dyffryn Maentwrog byth a beunydd. Gobeithio ei bod yr un mor ddistaw yn nyffrynnoedd eraill Eryri hefyd. Mae’n dda cael heddwch..

## Modrwy V874317 - Taith jibinc




*3F ringed 16 Nov 2008 Bryn Poeth, Rhiw. Found dead having hit a man-made structure 5th May 2009 at Tasebo, Arvika, Varmland, Sweden. Duration 170 days Distance 1321 km*

Kelvin Jones

## Gweilch ar y Ddyfi



*Some wondrous news today. Four ospreys were fishing in the Dyfi estuary on Easter Sunday - 4th April 2010. The first time that I have seen four ospreys at the same time in Welsh skies and possibly the first time this has happened in many centuries. Two of these were the Dyfi pair having returned from their West African wintering grounds and they spent most of the day on or around their nest. Over three hundred people visited the project today and the look on their faces as we showed them the birds live on the screens and from the hide is beyond words. Rarely does the job satisfaction meter go off scale for a whole day - today was an exception!. At one point Alwyn could not bring himself to talk - priceless.*

Emyr Evans Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn

## Y B....Bwletin ‘na!

“Dwi wrth fy modd efo B...Llên Natur ar wahan i air cynta’r teitl, dwi wedi’i sillafu yma fel petai’n air anweddus. I mi mae bwletin yn hen air rhodresgar sy’n cyd-fynd yn ddi-fai ag un o dueddiadau anffodus ein hoes, sef ymadroddi techneglyd. Awgrymiadau: Trafod..., Trafodion,,, Hanesion..., Newyddion... neu Llên Natur ar ei ben ei hun”.

Wmffra Humphreys

Pwy sy’n cytuno ag Wmffra?

**Gwyl (newydd) Farc Efengylwr 6 Mai**